



SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL A CHYNHWYSIAD)
CYFLENWI DROS GYFNOD MAMOLAETH – Cytundeb Cyfnod Penodol 12 Mis

Rhif y Swydd: 503164
CYFLOG: £32,076 – £33,945
GRADD: 9
37 awr yr wythnos

Mae swydd cyfnod penodol fel Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau Cyffredinol a Chynhwysiant) wedi codi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i lleoli ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd llawn amser hon yn gyfle cyffrous i Hyfforddwr/gweithiwr proffesiynol Dysgu a Datblygu profiadol ymuno â thîm gwych sydd ar hyn o bryd yn ceisio trawsnewid y cyfleoedd datblygu i'r holl weithwyr ar draws y Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant yn ogystal â datrysiadau proffesiynol dysgu, datblygu ac ymgysylltu i weithwyr GTADC gydol eu gyrfaeod gan gynnwys ymgynffwrddio a llwybrau datblygu. Yn ogystal â hyn, bydd y swydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant cynhwysiad a digwyddiadau ymgysylltu, gan sicrhau bod yr holl weithgareddau tîm yn cynyddu ac yn hyrwyddo cynlluniau ymgysylltu gweithwyr yn ogystal â Chynllun Tân Cynhwysol y Gwasanaeth. Rhaid bod ymgeiswyr llwyddiannus felly'n dangos sgiliau cynllunio a chyflwyno ardderchog yn ogystal â brwdfrydedd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.

Sylwer nad yw'n bosib cyflawni'r rôl hon ar sail secondiad na rhannu swydd.

Oherwydd natur y swydd gofynnir i'r unigolyn weithio fin nos neu ar benwythnosau weithiau a bydd rhywfaint o deithio ar draws ardal GTADC yn ofynnol. Mae'r gallu i deithio'n annibynnol yn ofynnol.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â ffurflen gais o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Serena Ford (**Rheolwr AD - Dysgu & Datblygu**) drwy e-bostio s-ford@decymru-tan.gov.uk.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrru drwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/> Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk **Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.**

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **Dydd Gwener 23ain o Chwefror 2024 am 12:00 hanner dydd**. Cynhelir cyfweiliadau yn ystod am **1af o Fawrth 2024**.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Gallai fod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban a gallai fod angen ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

